Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

Arweiniad atodol ar gyfer arolygu anghenion dysgu ychwanegol

Chwefror 2011

Iechyd ar Waith
Cyrraedd y Nod
The Corporate Standard
Health at Work

Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd
Green Dragon Environmental Standard

INVESTORS IN PEOPLE | BUDDSODDWYR MEWN POBL

Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:

- ysgolion a safleoedd meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau lleol;
- ysgolion cynradd;
- ysgolion uwchradd;
- ysgolion arbennig;
- unedau cyfeirio disgyblion;
- ysgolion annibynnol;
- addysg bellach;
- dysgu oedolion yn y gymuned;
- gwasanaethau addysg awdurdodau lleol i blant a phobl ifanc;
- addysg a hyfforddiant athrawon;
- dysgu yn y gwaith;
- cwmnïau gyrfaoedd; a
- dysgu troseddwyr

Mae Estyn hefyd:

- yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill; ac
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gsi.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2011: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Beth yw'r diben?
Darparu arweiniad pellach i arolygwyr, i'w ddefnyddio ochr yn ochr ag arweiniad y sector, wrth arfarnu deilliannau a darpariaeth i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, yn enwedig pan fydd yn drywydd ymholi.

Ar gyfer pwy mae'r arweiniad?
Ar gyfer arolygwyr pob ysgol gynradd ac uwchradd a gynhelir ac ysgolion annibynnol, ysgolion arbennig ac unedau cyfeirio disgyblion.

Pa bryd y dylid dechrau defnyddio'r arweiniad?
Ionawr 2011

Dyddiad cyhoeddi: Ionawr 2011

Cyflwyniad

Un o nodau Llywodraeth Cynulliad Cymru yw i bob dysgwr gael y dechrau gorau mewn bywyd â chyfleoedd ac anogaeth i gyflawni eu gwir botensial mewn ysgolion sy'n darparu amgylcheddau cynhwysol a chynorthwyol. Amlinellwyd y weledigaeth hon ar gyfer cynhwysiant yn arweiniad Cylchlythyr 47/2006 'Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion'[1].

Ym mis Ionawr 2010, roedd ychydig dros 86,000[2] o ddisgyblion ar gofrestrau anghenion dysgu ychwanegol (ADY)/anghenion addysgol arbennig (AAA)[3] yng Nghymru. Roedd bron pob un o'r disgyblion hyn yn mynychu dosbarthiadau arferol mewn ysgolion prif ffrwd. Roedd gan ychydig dros 14,000 o'r disgyblion hyn ddatganiadau AAA. Addysgwyd dros ddau draean o'r disgyblion â datganiadau mewn ysgolion prif ffrwd. Roedd tua 40% o'r disgyblion hyn â datganiadau mewn ysgolion prif ffrwd yn mynychu darpariaeth ag adnoddau yn yr ysgol.

Caiff y term 'anghenion dysgu ychwanegol' ei ddefnyddio i adnabod disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol i'r mwyafrif o'u cyfoedion. Mae'r term 'anghenion addysgol arbennig'[4] yn is-gategori o anghenion dysgu ychwanegol, sy'n cael ei ddefnyddio i adnabod y dysgwyr hynny sydd ag anawsterau dysgu difrifol, cymhleth a/neu benodol, fel yr amlinellwyd yn Neddf Addysg 1996 a Chod Ymarfer AAA Cymru[5].

---

[1] Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion, Cylchlythyr LlCC rhif: 47/2006
[2] SDR 91/2010
[3] Cofrestrau ADY/AAA: mae'r rhain yn gofrestrau o nifer y disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol ym mhob ysgol. Mae AAA yn is-gategori o anghenion dysgu ychwanegol.
[4] Atodiad 5
[5] Cod Ymarfer AAA: cyngor ymarferol i awdurdodau lleol, ysgolion a gynhelir, lleoliadau'r blynyddoedd cynnar ac eraill sy'n cyflawni eu dyletswyddau statudol i adnabod, asesu a darparu ar gyfer anghenion addysgol arbennig plant. Nid yw'r ddyletswydd hon yn berthnasol i ysgolion annibynnol.

Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn cynnwys y rhai hynny sydd ag:

- anghenion addysgol arbennig (AAA);
- anableddau;
- anghenion meddygol; ac
- anawsterau emosiynol, cymdeithasol ac ymddygiadol a/neu anghenion iechyd meddwl.

Mae disgyblion yn fwy tebygol o fod ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) os ydynt yn perthyn i grwpiau sy'n agored i niwed hefyd, gan gynnwys:

- grwpiau lleiafrifoedd ethnig;
- ffoaduriaid/ceiswyr lloches;
- gweithwyr ymfudol;
- plant y gofelir amdanynt (LAC);
- rhieni ifanc a merched ifanc beichiog;
- troseddwyr ifanc;
- plant a theuluoedd mewn amgylchiadau anodd;
- disgyblion sydd mewn perygl o fwlio homoffobig;
- gofalwyr ifanc;
- disgyblion sy'n derbyn addysg heblaw am yn yr ysgol;
- disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol;
- disgyblion ag anghenion Medrau Sylfaenol; a
- sipsiwn a theithwyr.

Mae'r arweiniad hwn yn cynorthwyo arolygwyr i arfarnu'r deilliannau a'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, yn enwedig pan fydd hynny'n drywydd ymholi. Mae'n darparu:

- cwestiynau defnyddiol ar gyfer pob dangosydd ansawdd;
- cwestiynau ar gyfer arfarnu cynlluniau addysg, ymddygiad neu chwarae unigol (Atodiad 1);
- cwestiynau i ysgolion sydd â darpariaeth ychwanegol i helpu rheoli ymddygiad (Atodiad 2); ac
- awgrymiadau ar gyfer casglu tystiolaeth (Atodiad 3).

Dylech ddisgwyl i gynlluniau addysg unigol (CAUau), cynlluniau ymddygiad unigol (CYUau), cynlluniau cymorth bugeiliol (CCBau) lle bo hynny'n briodol ac, yn y Cyfnod Sylfaen, cynlluniau chwarae unigol (CChUau) fod ar waith ar gyfer pob disgybl ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol. Mae llawer o ysgolion yn cyfuno cynlluniau addysg ac ymddygiad yn un cynllun cydlynol. Mae'r lleiafrif o ysgolion yn datblygu cynlluniau addysg neu ymddygiad ar gyfer grwpiau bach o ddisgyblion yn hytrach nag unigolion. Dylai arolygwyr sicrhau bod arfarnu'r deg dangosydd ansawdd yn cynnwys cyflawniadau, agweddau a lles pob dysgwr. I ddisgyblion ag anghenion dysgu

ychwanegol, dylai barnau am gyflawniadau ystyried cyflawniadau'r disgyblion mewn perthynas â nodau dysgu cytûn.

Mae Iaith Pawb, sef cynllun gweithredu Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer Cymru ddwyieithog, yn cydnabod hawl disgyblion ag anghenion addysgol arbennig i gael darpariaeth yn eu dewis iaith, fel yr amlinellwyd yng Nghod Ymarfer anghenion addysgol arbennig diwygiedig Cymru (2002).

Mae'n ofynnol i bob ysgol annibynnol yng Nghymru gydymffurfio â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003. Mae'r rheoliadau hyn yn gofyn i ysgol wneud darpariaeth briodol ar gyfer pob disgybl, gan gynnwys y rhai ag anghenion addysgol arbennig. Nid yw'n ofynnol i'r ysgol lynu wrth y Cod Ymarfer AAA na threfnu darpariaeth Gymraeg, er y gellir ystyried y rhain yn arfer dda.

Dylai arolygwyr fod yn gyfarwydd â'r ddeddfwriaeth ganlynol ac efallai y byddant am edrych ar yr arweiniad gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a restrir yn ogystal â'r arweiniad atodol hwn:

- Deddf Addysg, Rhan IV (1996);
- Deddf Anabledd (1995);
- Deddf Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd (2001);
- Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd (2005);
- Cod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru (2004);
- Hyrwyddo Cydraddoldeb Anabledd mewn Ysgolion (2007);
- Cod Ymarfer ar y Ddyletswydd i Hyrwyddo Cydraddoldeb Hiliol (2001);
- Cynllunio ar gyfer cynyddu mynediad i ysgolion i ddisgyblion ag anableddau Cylchlythyr Rhif: 15/2005;
- Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion Cylchlythyr Rhif: 47/2006; a
- Cwricwlwm i bob dysgwr (2010).

Mae'r arweiniad atodol hwn yn cysylltu â fframwaith arolygu cyffredin Estyn a'r llawlyfrau arweiniad ar gyfer pob sector.

Cynnwys	Tudalen

Afarnu anghenion dysgu ychwanegol **1**

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? 1
Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? 2
Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? 6

Atodiadau

1. Cynlluniau addysg unigol, cynlluniau ymddygiad unigol a hynlluniau chwarae
2. Darpariaeth ychwanegol I rheoli ymddygiad a chynorthwyo dysgu
3. Pethau y gallai arolygwyr eu gwneud mewn arolygiad
4. Enghraifft o fap darpariaeth
5. Cod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig (2004)

Arfarnu anghenion dysgu ychwanegol

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

1.1 Safonau

I ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, caiff barnau am gyflawniad eu dylanwadu gan y wybodaeth am eu hanghenion a'u galluoedd unigol a dylent ystyried eu cyflawniadau mewn perthynas â chyflawni nodi dysgu unigol cytûn.

Dylai arolygwyr ystyried y cwestiynau canlynol mewn perthynas â disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol:

- A ydynt yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu?
- A ydynt yn cyflawni'r hyn a ddisgwylir ganddynt o ddata gwaelodlin a chyrhaeddiad blaenorol?
- A ydynt yn cyflawni'r targedau yn eu CAUau, CYUau, CCBau neu CChUau, fel y bo'n briodol? (gweler Atodiad 1)
- Os yw gwahanol grwpiau o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da, pam?
- A yw eu hanawsterau penodol, fel medrau canolbwyntio gwael neu fedrau cyfathrebu gwan, yn rhwystro eu cynnydd a'u gallu i fanteisio ar y cwricwlwm cyfan?
- A ydynt yn cael unrhyw anawsterau penodol o ran manteisio ar y cwricwlwm nad ydy'r ysgol yn mynd i'r afael â nhw?
- Sut mae eu medrau cyfathrebu yn effeithio ar y modd y maent yn rhyngweithio â staff a'u cyfoedion?
- A yw pob un o'r disgyblion yn dysgu Cymraeg, heblaw am yr ychydig iawn ohonynt y mae eu datganiad o anghenion addysgol arbennig (AAA) yn eu datgymhwyso?[6]

1.2 Lles

Dylai arolygwyr ystyried y cwestiynau canlynol mewn perthynas â disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol:

- A yw pob un ohonynt yn dangos diddordeb yn eu gwaith ac yn ymgymryd â thasgau'n dda?
- Sut mae eu cyfradd bresenoldeb yn cymharu â disgyblion eraill yn yr ysgol?
- Mewn perthynas â'u hanghenion a adnabuwyd, a ydynt yn ymddwyn yn dda mewn gwersi ac o gwmpas yr ysgol, yn enwedig y rhai sydd ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol (SEBD)?

[6] Mae gan bob ysgol a gynhelir, gan gynnwys ysgolion arbennig ac unedau cyfeirio disgyblion, rwymedigaeth gyfreithiol i addysgu Cymraeg i bob disgybl o oed ysgol statudol, heblaw am ychydig iawn o ddisgyblion y mae eu datganiad o anghenion addysgol arbennig yn eu datgymhwyso rhag dysgu Cymraeg.

- A yw CAUau, CYUau, CCBau a CChUau, fel y maent yn briodol, yn cynnwys nodau priodol ar gyfer ymddygiad a thystiolaeth o gynnydd yn erbyn y nodau hyn?
- A yw pob un ohonynt yn cael eu cynnwys mewn penderfyniadau ynghylch eu bywyd yn yr ysgol, gan gynnwys eu cyfranogiad yng nghyngor yr ysgol?
- A ydynt yn cael cyfle i roi eu barn am yr hyn y maent yn ei ddysgu a sut?
- A yw pob un ohonynt yn gwneud cynnydd o ran bod yn gyfrifol am eu gweithredoedd a'u gwaith?
- A yw pob un ohonynt yn dangos agweddau cadarnhaol tuag at anabledd ac anghenion dysgu ychwanegol eraill?
- Pa mor effeithiol y maent yn cydweithio ag eraill, yn datrys problemau ac yn paratoi ar gyfer bywyd a gwaith y tu allan i'r ysgol?

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?

2.1 Profiadau dysgu

Dylai arolygwyr ystyried y cwestiynau canlynol mewn perthynas â disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol:

- A oes gan yr ysgol fap darpariaeth[7] ar gyfer cynhwysiant sy'n cael ei fonitro a'i adolygu'n flynyddol?
- A yw'r arfer o osod targedau ar gyfer pob disgybl yn cynnwys targedau i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol?
- Pa mor dda y mae'r ysgol yn addasu rhaglenni astudio pan fo disgyblion yn gweithio'n sylweddol is na'r lefelau disgwyliedig, lle bo hynny'n briodol?
- A all pob disgybl fanteisio ar gwricwlwm sy'n briodol eang a chytbwys?
- A yw'r disgyblion wedi'u grwpio mewn modd sy'n eu helpu i ddysgu orau, gan gynnwys grwpiau tynnu allan a grwpiau bach mewn dosbarthiadau?
- A yw'r trefniadau eistedd yn bodloni anghenion disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol?
- A ymgynghorir â disgyblion ynghylch pryd y mae'n fwyaf priodol iddynt gael eu tynnu allan o waith y grŵp dosbarth ar gyfer gwaith unigol, lle bo hynny'n briodol?
- A yw disgyblion sy'n derbyn y cwricwlwm trwy Iaith Arwyddion Prydain (BSL) neu Saesneg â Chymorth Arwyddion (SSE) yn cael cymorth i wneud hynny yn ôl yr angen?
- A yw disgyblion byddar yn astudio BSL fel rhan o'r cwricwlwm?
- Pa mor dda y mae'r ysgol yn mynd i'r afael ag anawsterau o ran bylchau mewn dysgu a chwricwlwm ailadroddus i ddisgyblion y gofelir amdanynt sydd wedi symud sawl gwaith?
- A all pob disgybl fanteisio ar gyfleoedd allgyrsiol a chymryd rhan ynddynt, fel chwaraeon, clybiau a chysylltiadau cymunedol?

[7] Mae Atodiad 4 yn darparu enghraifft o fap darpariaeth.

2.2 Addysgu

Dylai arolygwyr ystyried y cwestiynau canlynol mewn perthynas â disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol:

- A yw pob aelod staff yn defnyddio CAUau, CYUau, CCBau a CChUau yn dda i gynllunio a chyflwyno addysgu sy'n cyfateb i anghenion disgyblion, lle bo hynny'n briodol?
- A yw'r gwaith yn cael ei wahaniaethu i'w wneud yn ddigon heriol ac ymdrechgar i bob disgybl?
- A yw deunyddiau a dulliau cyflwyno yn cael eu gwahaniaethu'n briodol er mwyn i'r cwricwlwm fod yn hygyrch i ddisgyblion?
- A oes gan athrawon ddisgwyliadau uchel ac a ydynt yn darparu gwaith ymdrechgar i fodloni anghenion pob disgybl?
- A oes gan athrawon arbenigol a'r Cydlynydd Anghenion Addysgol Arbennig/Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol y wybodaeth ddiweddaraf am ddulliau addysgu a hyfforddi ac a ydynt yn ei chymhwyso'n dda i addysgu disgyblion a chynorthwyo eu cydweithwyr?
- A yw staff cymorth yn cael eu defnyddio'n effeithiol i gynorthwyo dysgu ac ymddygiad?[8]
- A oes gan yr ysgol weithdrefnau ysgol gyfan effeithiol ar gyfer asesu anghenion disgyblion, sy'n ystyried y cydberthyniad rhwng anawsterau dysgu ac ymddygiad gwael?
- Pa mor effeithiol yw gweithdrefnau ymyrraeth gynnar yr ysgol?
- A yw'r ysgol yn defnyddio ystod o offer a gweithdrefnau asesu ychwanegol priodol i adnabod anghenion disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol?
- A yw data asesu yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol i fonitro cynnydd a thargedu dysgu?
- A yw'r ysgol yn mynd i'r afael â'r cysylltiadau rhwng ymddygiad gwael a llythrennedd gwael?
- A yw'r ysgol yn gwneud cysylltiadau priodol rhwng ymddygiad a chyflawniad ac yn mynd i'r afael â nhw?
- A yw'r ysgol yn cadw cofnodion clir, systematig, hylaw, cyson a defnyddiol ac yn olrhain cynnydd pob disgybl ag anghenion dysgu ychwanegol?
- A yw adroddiadau ar gynnydd disgyblion a CAUau, CYUau, CCBau a CChUau, lle bo hynny'n briodol, yn glir, yn ddiweddar ac a ydynt yn amlinellu targedau ar gyfer gwella ynghyd â meini prawf llwyddiant a graddfeydd amser ar gyfer monitro cynnydd?
- A oes cysylltiadau agos a chydgynllunio da rhwng unrhyw ddarpariaeth ag adnoddau a'r ddarpariaeth brif ffrwd?

[8] Trwy gydol yr arweiniad hwn, caiff y term 'staff cymorth' ei ddefnyddio i ddynodi staff, heblaw am athrawon, sy'n cael eu cyflogi i gynorthwyo disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Er enghraifft, cynorthwywyr cymorth dysgu, cynorthwywyr cymorth ymddygiad a chynorthwywyr cyfathrebu.

- A yw disgyblion yn cael eu galluogi i arfarnu eu cynnydd eu hunain yn erbyn y targedau a osodir yn eu CAUau, CYUau, CCBau a CChUau a gosod rhai newydd, lle bo hynny'n briodol?

2.3 Gofal, cymorth ac arweiniad

Y prif ffocws yw pa mor dda y mae'r ysgol yn helpu disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol i gyflawni eu potensial.

Dylai arolygwyr ystyried y cwestiynau canlynol mewn perthynas â disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol:

- A oes polisi ysgol gyfan a chynllun gweithredu a ddeëllir yn dda sy'n hyrwyddo cynnwys disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol ac sydd wedi'i gysylltu â strategaeth gwella'r ysgol?
- A yw'r ysgol yn defnyddio'r Cod Ymarfer AAA a dyletswyddau statudol yn briodol i adnabod, asesu a darparu ar gyfer anghenion addysgol arbennig disgyblion?
- A yw'r ysgol yn cadw disgyblion sy'n trosglwyddo i unedau cyfeirio disgyblion ar y gofrestr?
- A yw'r ysgol yn monitro cynnydd disgyblion sy'n trosglwyddo i unedau cyfeirio disgyblion?
- A yw'r ysgol yn darparu digon o gymorth arbenigol o ansawdd da i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol?
- A oes cysylltiad rheolaidd a chydgynllunio da ag arbenigwyr, er enghraifft, athrawon disgyblion â nam ar y clyw a nam ar y golwg a therapyddion iaith a lleferydd, lle bo hynny'n berthnasol?
- A oes trefniadau da i baratoi disgyblion ar gyfer yr hyn sy'n dod nesaf yn y rhaglen astudio/cwrs ac mewn gwersi, er enghraifft trwy addysgu rhywfaint o'r eirfa ymlaen llaw a sicrhau bod disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn deall nodau gwersi a gweithgareddau?
- A yw Cynlluniau Addysg Personol (CAPau[9]) ar gyfer plant y gofelir amdanynt o ansawdd da, yn ddiweddar ac yn cael effaith gadarnhaol?
- A yw'r ddarpariaeth ar gyfer addysg rhyw a pherthnasoedd ac addysg yn ymwneud â cham-drin sylweddau yn cael ei gwahaniaethu i fodloni anghenion disgyblion a lefel eu dealltwriaeth?
- A roddir digon o anogaeth a chyfleoedd i bob disgyblion fod yn gyfrifol am eu hunain ac eraill, dangos menter a datblygu dealltwriaeth o fyw yn y gymuned?
- A oes cymorth da i helpu pob disgybl ddeall a chytuno ar reolau grŵp a'r modd y maent yn ymwneud â'i gilydd a bod yn gyfrifol am eu gweithredoedd eu hunain?
- Pa mor dda y mae'r ysgol yn helpu pob disgybl i werthfawrogi bod aflonyddu ar ddisgybl arall/ddisgyblion eraill a'u bwlio yn ymddygiad annerbyniol?

[9] Cynlluniau Addysg Personol (CAPau). Dan Ddeddf Plant 2004, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol sicrhau bod gan bob plentyn dan eu gofal CAP o fewn 20 diwrnod ysgol o fynd i'w gofal neu ymuno ag ysgol newydd.

- A yw'r ysgol yn gwneud trefniadau i ddisgyblion sy'n cael cludiant arbenigol yn ôl ac ymlaen i'r ysgol gymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol sy'n cael eu trefnu gan yr ysgol?
- A yw trefniadau arholi arbennig yn cael eu cynllunio'n dda a'u trafod a'u cytuno â disgyblion, lle bo hynny'n berthnasol?
- A yw'r disgyblion yn cael eu helpu i ddefnyddio cymorth proffesiynol o'r tu mewn i'r ysgol a chan wasanaethau arbenigol fel gwasanaethau iechyd meddwl (CAMHS) a Gyrfa Cymru?
- A yw polisïau a gweithdrefnau diogelu'r ysgol yn ystyried bod disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn fwy agored i niwed ac yn sicrhau bod y trefniadau ar gyfer y disgyblion hyn yn briodol?
- A yw'r protocolau meddygol ar gyfer disgyblion anabl unigol yn gyfredol?
- A all disgyblion fanteisio ar staff cymorth arbenigol, athrawon, neu seicolegwyr addysg, yn ogystal â darpariaeth ar gyfer anghenion penodol fel therapyddion iaith a lleferydd Cymraeg eu hiaith, lle bo hynny'n berthnasol?
- A yw disgyblion yn cael digon o gymorth gan athrawon Saesneg fel iaith ychwanegol i'w galluogi i ddatblygu eu medrau iaith a chyfathrebu a manteisio ar y cwricwlwm cyfan, lle bo hynny'n berthnasol?
- A oes gan yr ysgol ddarpariaeth ddigonol i gynorthwyo arddulliau dysgu ac anghenion gwahanol pob dysgwr?
- A yw'r ysgol yn sicrhau cymorth da gan eraill, er enghraifft athrawon cymorth, seicolegwyr addysg, arbenigwyr meddygol, parameddygol a nyrsio, ac asiantaethau allanol eraill i helpu disgyblion cyflawni safonau priodol?
- A oes gan yr ysgol ddealltwriaeth glir o'r trothwyon atgyfeirio sy'n cael eu defnyddio gan yr awdurdod lleol ar gyfer cymorth ychwanegol ar ffurf Gweithredu Gan yr Ysgol ac asesiadau statudol ac a ydynt yn eu defnyddio'n briodol?
- A yw rhieni/gofalwyr yn cael eu cynorthwyo i ddeall gweithdrefnau, gan gynnwys gweithdrefnau asesu statudol, ac a ydynt yn cael gweld cofnodion ac adroddiadau sy'n ymwneud â'u plant?

2.4 Yr amgylchedd dysgu

Dylai arolygwyr ystyried y cwestiynau canlynol mewn perthynas â disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol:

- Pa mor llwyddiannus yw'r ysgol o ran bodloni gweledigaeth ac arweiniad Llywodraeth Cynulliad Cymru[10] ar gyfer bodloni anghenion pob dysgwr o fewn dull cynhwysol ysgol-gyfan?
- A yw'r ysgol yn cyflawni dyletswyddau Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd[11] 1995 o ran hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng disgyblion anabl a'u cyfoedion a chael gwared â gwahaniaethu ac aflonyddu?
- A yw'r ysgol wedi'u addasu'n ffisegol i fodloni anghenion disgyblion yn briodol?

[10] Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion, Cylchlythyr LICC Rhif: 47/2006
[11] Rhan IV Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd 2001)

- A oes cyfleusterau newid priodol i ddisgyblion ag anableddau, lle bo hynny'n briodol i anghenion y disgyblion yn yr ysgol?
- A yw adnoddau'n gweddu'n dda i anghenion disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol?
- A yw'r disgyblion sy'n mynychu dosbarthiadau neu grwpiau bach arbenigol yn cael ystod o brofiadau, gan gynnwys cydweithio â disgyblion eraill?
- A yw adnoddau arbenigol, er enghraifft offer technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh), cymhorthion radio a systemau meysydd sain, yn cael eu defnyddio'n dda i alluogi disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol i fanteisio'n llawn ar y cwricwlwm?
- A yw staff yn defnyddio adnoddau'n dda i gynorthwyo anghenion dysgu ychwanegol disgyblion?

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?

3.1 Arweinyddiaeth

Dylai arolygwyr ystyried y cwestiynau canlynol mewn perthynas â disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol:

- A yw arweinwyr yn ystyried anghenion dysgu ychwanegol fel rhan o agenda wella ehangach yr ysgol?
- A yw arweinwyr yn ymdrechu i wella'r ddarpariaeth gyffredinol er mwyn bodloni ystod ehangach o anghenion yn hytrach na chynyddu'r ddarpariaeth arbenigol neu ychwanegol bob tro?
- A yw rôl a chyfrifoldebau'r Cydlynydd Anghenion Addysgol Arbennig/Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol wedi'u diffinio'n glir?
- A yw'r Cydlynydd Anghenion Addysgol Arbennig/Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol yn cael digon o amser pan nad yw'n addysgu i gyflawni ei rolau gweinyddol ac ysgol gyfan?
- Pa mor dda y mae staff penodedig, gan gynnwys staff cymorth, yn deall ac yn cyflawni eu rolau'n effeithiol?
- A yw rheolwyr yn casglu gwybodaeth am ddigwyddiadau lle mae ymyrraeth gorfforol, fel y gallant gael trosolwg, adnabod patrymau a sbardunau a gwella'r modd y caiff y digwyddiadau hyn eu rheoli?
- A yw arweinwyr yn sicrhau y caiff y Cod Ymarfer AAA a dyletswyddau statudol eu defnyddio'n effeithiol i adnabod, asesu a darparu ar gyfer anghenion addysgol arbennig disgyblion?
- A yw data'n cael ei ddefnyddio'n dda i fonitro perfformiad disgyblion a chynllunio gwelliannau?
- Pa mor dda y mae'r holl staff yn deall eu rolau mewn perthynas uniongyrchol â nodau strategol, cynlluniau a chyfrifoldebau penodol yr ysgol ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol?
- A yw'r holl staff, gan gynnwys athrawon, staff cymorth a goruchwylwyr amser cinio, yn gyfarwydd â pholisïau'r ysgol ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol, cynhwysiant ac ymddygiad, ac yn eu gweithredu'n hyderus ac yn gyson?

- A oes gan yr ysgol Gynllun Cydraddoldeb Anabledd a Chynllun Hygyrchedd cyfredol sy'n gosod camau gweithredu, graddfeydd amser a chostau ar gyfer gwneud addasiadau priodol i'r amgylchedd ffisegol?
- Pa mor dda y mae'r arweinwyr a staff yr ysgol yn hyrwyddo ethos lle nad oes unrhyw aflonyddu neu fwlio ymhlith y disgyblion yn cael ei oddef?
- A yw'r corff llywodraethol yn llunio adroddiad blynyddol i rieni ar weithredu polisi'r ysgol ar gyfer disgyblion ag anghenion addysgol arbennig?
- A yw'r llywodraethwyr yn cael eu cynnwys yn llawn mewn datblygu a monitro'r polisi anghenion dysgu ychwanegol, gan gynnwys anghenion addysgol arbennig?
- A yw'r llywodraethwyr, yn enwedig unrhyw lywodraethwr penodedig, yn wybodus am ddarpariaeth arbenigol yr ysgol, gan gynnwys sut y caiff cyllid, offer a staff arbenigol eu defnyddio?
- Pa mor dda y mae'r ysgol yn bodloni gweledigaeth ac arweiniad Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion?[12]
- A yw'r Cydlynydd Anghenion Addysgol Arbennig/Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol yn gwybod am arweiniad lleol a chenedlaethol ar adnabod ac asesu disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol a'i rôl o ran ei roi ar waith?

3.2 Gwella ansawdd

Dylai arolygwyr ystyried y cwestiynau canlynol mewn perthynas â disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol:

- A oes tystiolaeth glir o ymagwedd ysgol gyfan at gynhwysiant?
- Pa mor dda yw dealltwriaeth rheolwyr ar bob lefel o'r hyn sydd angen ei wneud i wella deilliannau i bob disgybl, gan gynnwys disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol?
- A oes proses hunanarfarnu glir ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol sy'n llywio blaenoriaethau yng nghynllun datblygu'r ysgol?
- A yw cynlluniau gwella yn amlygu cynigion clir i fynd i'r afael â meysydd sydd angen eu datblygu sy'n ymwneud ag anghenion dysgu ychwanegol?
- A yw monitro ysgol gyfan yn canolbwyntio'n briodol ar ddisgyblion sydd mewn perygl o dangyflawni?
- A ymgynghorir â phob disgybl a'u rhieni ac a wrandewir arnynt?
- A yw'r ysgol wedi cyflawni unrhyw wobrau penodol i ddangos eu llwyddiant ag anghenion dysgu ychwanegol, er enghraifft, Gwobr Ysgolion sy'n Darparu ar gyfer Dyslecsia?
- A yw'r ysgol yn cynorthwyo staff i wella eu medrau a'u profiad mewn gweithio â disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, er enghraifft trwy ddarparu hyfforddiant ar Ymwybyddiaeth o Fyddardod i staff yr ysgol?
- A yw'r ysgol yn darparu arweiniad, cymorth a hyfforddiant priodol i staff cymorth i'w galluogi i fodloni anghenion disgyblion?
- A yw'r Cynllun Cydraddoldeb Anabledd a'r Cynllun Hygyrchedd yn cysylltu'n dda â chynllun datblygu'r ysgol?

[12] Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion, Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2007

3.3 Gweithio mewn partneriaeth

Dylai arolygwyr ystyried y cwestiynau canlynol mewn perthynas â disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol:

- A oes cysylltiad effeithiol â'r awdurdod lleol er mwyn sicrhau bod cymorth ychwanegol yn bodloni anghenion disgyblion?
- A yw'r ysgol yn gweithio'n dda mewn partneriaeth ag eraill, er enghraifft gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol i blant, i fodloni anghenion disgyblion?
- Beth yw deilliannau mentrau fel Tîm o Amgylch y Plentyn a gwaith agos arall ag asiantaethau arbenigol fel yr heddlu, iechyd, seicolegol, gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed (CAMHS), cwnsela a gwasanaethau cymdeithasol?
- A yw'r ysgol yn cysylltu'n dda ag asiantaethau eraill ac yn helpu disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol i gynllunio eu llwybrau ar gyfer y dyfodol?
- A oes gan yr ysgol drefniadau da ar waith i sicrhau bod disgyblion yn pontio i'r ysgol, ar draws cyfnodau allweddol ac i'r ddarpariaeth ôl-ysgol yn rhwydd?
- A oes gan yr ysgol gysylltiadau da â rhieni a gofalwyr sy'n helpu parhau dysgu gartref?
- A oes tystiolaeth bod yr ysgol yn olrhain cynnydd dysgwyr sy'n cael eu hatgyfeirio i asiantaethau allanol ac unedau cyfeirio disgyblion?
- Pa mor ymroddedig y mae'r ysgol i drefniadau 'symudiadau a reolir' yr awdurdod lleol?

3.4 Rheoli adnoddau

Dylai arolygwyr ystyried y cwestiynau canlynol mewn perthynas â disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol:

- A oes gan yr ysgol ddigon o staff â'r medrau cywir i gynorthwyo disgyblion yn effeithiol er mwyn sicrhau dilyniant a pharhad mewn dysgu?
- A yw anghenion staff cymorth yn cael eu nodi a'u bodloni'n briodol?
- A oes gan y Cydlynydd Anghenion Addysgol Arbennig/Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol gymwysterau ychwanegol mewn anghenion dysgu arbennig?
- A yw'r ysgol yn manteisio i'r eithaf ar wasanaethau allgymorth sy'n cael eu cynnig i gynorthwyo disgyblion a helpu staff i ddatblygu eu medrau, er enghraifft, trwy'r fenter Datgloi Potensial Ysgolion Arbennig?
- A yw staff cymorth yn cael eu defnyddio'n effeithiol?
- Pa mor dda y mae'r holl staff perthnasol yn deall rolau a chyfrifoldebau staff cymorth?
- A yw'r ysgol yn gwneud addasiadau rhesymol mewn perthynas â'r Ddyletswydd Cydraddoldeb Anabledd, i gael gwared â rhwystrau rhag dysgu a chyfranogi a sicrhau bod yr adeilad yn addas i ddisgyblion ag anableddau a phob aelod o gymuned yr ysgol?

- Mewn ysgolion sydd â disgyblion byddar, a yw'r ystafelloedd dosbarth wedi'u haddasu er mwyn osgoi unrhyw sŵn allanol, lleihau datseinedd a sicrhau golau priodol ar gyfer darllen gwefusau ac arwyddo?
- Mewn ysgolion sydd â disgyblion â nam ar eu golwg, a yw'r ystafelloedd wedi'u haddasu'n briodol i leihau llacharedd ac ati?

Atodiad 1: Cynlluniau addysg unigol, cynlluniau ymddygiad unigol a chynlluniau chwarae unigol

Dylai anghenion dysgu ychwanegol disgyblion gael eu hamlinellu mewn cynlluniau addysg unigol (CAUau), cynlluniau ymddygiad unigol (CYUau) neu gynlluniau cymorth bugeiliol (CCBau), gan ddibynnu ar anghenion y disgybl. Yn y Cyfnod Sylfaen, dylid amlinellu anghenion disgyblion mewn cynlluniau chwarae unigol (CChUau). Mae llawer o ysgolion yn cyfuno cynlluniau addysg ac ymddygiad mewn un ddogfen gydlynol. Dylai arolygwyr arfarnu effaith y cynlluniau hyn. Mae lleiafrif o ysgolion yn datblygu cynlluniau addysg neu ymddygiad ar gyfer grwpiau bach o ddisgyblion yn hytrach nag unigolion. Dylech arfarnu effaith y rhain yn yr un modd â chynlluniau unigol.

Dylai arolygwyr ystyried y cwestiynau canlynol wrth arfarnu'r cynlluniau hyn:

- A oes cydlyniad addas rhwng anghenion disgyblion â'r ymyrraeth gynlluniedig?
- A yw'r targedau'n mynd i'r afael â meysydd sy'n peri pryder?
- A yw'r targedau'n gyflawnadwy?
- A yw'r targedau'n cynnig digon o her?
- A yw'r strategaethau sy'n cael eu disgrifio yn briodol i'r targedau?
- A yw'r strategaethau yn cael eu cyflwyno'n effeithiol?
- A yw monitro ac asesu yn digwydd yn rheolaidd?
- A yw disgyblion yn gwneud cynnydd trwy gyflawni'r targedau?
- A yw disgyblion yn cymryd rhan mewn gosod eu targedau ac adolygu eu cynnydd?
- A yw'r holl staff sy'n gweithio â disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn ymwybodol o'r targedau a'r gweithdrefnau monitro ar gyfer unigolion?
- A oes cysylltiad uniongyrchol rhwng datganiadau AAA a chynlluniau unigol disgyblion?

Atodiad 2: Darpariaeth ychwanegol i reoli ymddygiad a chynorthwyo dysgu

Efallai y bydd gan yr ysgol ddarpariaeth 'cynhwysiant', 'meithrin' neu 'gymorth dysgu' i dynnu disgyblion sy'n amharu ar wersi. Dylai arolygwyr ystyried y cwestiynau canlynol wrth arfarnu'r dysgu a'r ddarpariaeth hon:

- Pa mor dda y mae uwch arweinwyr yn dadansoddi effeithiolrwydd strategaethau'r ysgol – a ydynt yn ymwybodol o batrymau tynnu allan yn barhaus neu dynnu allan o wersi un athro neu bwnc yn gyson?
- A yw uwch arweinwyr yn defnyddio'r dadansoddiad o batrymau i benderfynu pryd y mae angen cymorth ychwanegol ar ddisgyblion neu athrawon?
- Pa mor dda yw'r camau pellach sy'n cael eu cymryd, sef defnyddio cynorthwywyr cymorth, rhoi gwybod i rieni, cosbau cynlluniedig? (Edrychwch ar ba bryd, pam, pa mor aml a beth.)
- Pa mor effeithiol yw'r addysgu a dysgu yn y ddarpariaeth 'gynhwysiant'?
- A oes cydlyniad addas rhwng anghenion disgyblion a'r ymyrraeth?
- A yw ymddygiad disgyblion yn gwella yn ystod eu hamser yn y ddarpariaeth – beth yw'r dystiolaeth?
- A yw ymddygiad gwell yn cael ei gynnal wrth i ddisgyblion ddychwelyd i'w dosbarthiadau arferol?

Atodiad 3: Pethau y gallai arolygwyr eu gwneud mewn arolygiad

Dylai arolygwyr ystyried y canlynol:

- Dylid barnu ansawdd hunanarfarniad yr ysgol o addysgu trwy'r ysgol gyfan gan reolwyr neu gymheiriaid. Bydd hyn yn llywio nifer y gwersi y mae angen eu samplu fel y gellir dilysu arfarniad yr ysgol o addysgu, neu beidio, yn sicr. Os yw'r ysgol yn ymwybodol o gryfderau a gwendidau ei hathrawon, gellir dilysu'r adroddiad hunanarfarnu a threulio amser minimol yn arsylwi gwersi. Fodd bynnag, os oes anghysonderau rhwng arfarniad yr ysgol o ansawdd yr addysgu ac arfarniad yr arolygwyr, dylid ymweld â sampl ehangach o wersi er mwyn barnu ansawdd yr addysgu, gan gynnwys arddulliau a strategaethau addysgu, trefniadau cymorth a'r modd y caiff ymddygiad ei reoli.
- Ystyried cywirdeb y gofrestr AAA/ADY – ambell waith, nid yw disgyblion ag ymddygiad heriol yn cael eu cofnodi a'u monitro ar y system hon.
- Fel arfer, mae'r polisïau ADY/AAA/cynhwysiant gorau yn glir ac yn gryno.
- Ystyried 'mynd am dro dysgu', lle yr ymwelir ag ystod o wersi am oddeutu 10 munud yr un. Gall hyn fod yn effeithiol o ran barnu ethos cynhwysol yr ysgol a medrau a phrofiad y staff addysgu o ran bodloni anghenion dysgu ychwanegol. (Cofiwch ddweud wrth athrawon nad ydych yn arsylwi'r wers lawn er mwyn rheoli eu disgwyliadau ynghylch cael adborth manwl ar y wers – ond gallwch roi rhywfaint o adborth iddynt, fel y bo'n briodol.)
- Edrych ar ystod o ddogfennau sy'n ymwneud a'r modd y mae'r ysgol yn asesu ac yn monitro anghenion dysgu ychwanegol.
- Siarad â disgyblion am eu profiadau o gael eu hadnabod a'u cynorthwyo a chael eu cynnwys mewn cynllunio eu dysgu.
- Ystyried addasrwydd amgylchedd ffisegol yr ysgol. A yw pob rhan o'r adeilad a'r tir yn hygyrch? A wnaed addasiadau rhesymol neu a oes cynlluniau ar eu cyfer?
- Edrych ar ryngweithiadau a pherthynas disgyblion â'u cyfoedion – a yw disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael eu cynnwys mewn gweithgareddau yn ystod amser egwyl, amser cinio ac ar ôl ysgol?
- A yw disgyblion yn dibynnu gormod ar staff cymorth ar draul datblygu eu hannibyniaeth?
- Caiff staff cymorth eu darparu i helpu athrawon a disgyblion yn hytrach na bod yn hollol gyfrifol am ddysgu disgyblion. Arsylwch beth sy'n digwydd a siaradwch â'r staff hyn.
- A yw'r ysgol yn arfarnu effeithiolrwydd unrhyw ddarpariaeth ag adnoddau yn gywir?

Atodiad 4: Enghraifft o fap darpariaeth

Map enghreifftiol o'r ddarpariaeth

					Costau'r Ddarpariaeth																	
					Cynorthwywyr Addysgu						Athrawon						Dadansoddiad CRIS					
Grŵp Blwyddyn	Dosbarth / Disgybl / Unigolyn	Darpariaeth / Adnodd	Grŵp Unigol	Blwyddyn Academaidd	Math / Graddau'r Cymorth	Cyfanswm Nifer yr Oriau / Wythnos	Cyfanswm Nifer yr Wythnosau	Cyfanswm (£)	Ariennir Gan	%	Math / Graddau'r Cymorth	Cyfanswm Nifer yr Oriau / Wythnos	Cyfanswm Nifer yr Wythnosau	Cyfanswm (£)	Ariennir Gan	%	Deilliannau	1	2	3	4
Der		Grŵp Magu Hyder	Grŵp EI	2010/11	TA2	5.00	39.00	£2,268.86	Ysgol	100						100					
Der		Llwybrau	Cymorth Dosbarth	2010/11						100	M3	1.00	39.00	£963.02	Ysgol	100					
B 1		Cymorth Ymddygiad	Grŵp AAA	2010/11	TA2	2.00	39.00	£907.55	ALl	100						100					
B 1		Cymorth Llythrennedd	Grŵp AAA	2010/11	TA2	7.00	39.00	£3,176.41	Ysgol	100						100					
B 2		Cymorth Ychwanegol	Yn unigol	2010/11	TA2	10.00	39.00	£4,537.73	ALl	100						100					
B 2		Cymorth Ychwanegol	Yn unigol	2010/11	TA2	10.00	39.00	£4,537.73	Ysgol	100						100					
B 3		SAP	Grŵp EI	2010/11	TA2	2.00	39.00	£907.55	Ysgol	100	M6	2.00	39.00	£2,414.21	Ysgol	100					
B 4		Dal i Fyny / Dyfal Donc	Yn unigol	2010/11	TA2	6.00	39.00	£2,722.64	Ysgol	100						100					
B 4		Rhaglenni Lleferydd ac Iaith	Yn unigol	2010/11						100	M2	1.00	39.00	£891.17	Ysgol	100					
B 5		Cymorth Ymddygiad	Yn unigol	2010/11	TA2	1.50	39.00	£680.66	ALl	100						100					
B 5		Grŵp Mathemateg	Grŵp AAA	2010/11						100	M5	1.00	39.00	£1,118.61	Ysgol	100					
B 6		Ymyrraeth Feddygol	Yn unigol	2010/11	TA3	3.00	39.00	£1,684.80	Ysgol	100						100					
B 6		Clwb Celf MAT	Grŵp EI	2010/11						100	M6	1.00	30.00	£928.54	Ysgol	100					
B 1		Cymorth HI/VI/MSI	Yn unigol	2010/11						100	Athro Arbenigol (ALl)	2.00	30.00		ALl	100					
B 2		Cymorth Addysgu Arbenigol	Grŵp AAA	2010/11						100	Athro Arbenigol (ALl)	4.00	39.00		ALl	100					
B 3		Cymorth Ymddygiad	Grŵp AAA	2010/11	TA2	3.00	39.00	£1,361.32	Ysgol	100						100					

Atodiad 5: Cod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig (2004)

Wrth ddarparu ar gyfer disgyblion ag anghenion addysgol arbennig (AAA), rhaid i ysgolion a gynhelir fodloni gofynion statudol.[13] Rhaid iddynt ddilyn Cod Ymarfer AAA Cymru (2004) sy'n rhoi arweiniad mewn perthynas â'r dyletswyddau a'r hawliau statudol a gynhwysir yn:

- Rhan IV Deddf Addysg 1996; a
- Deddf Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd (SENDA) 2001.

Mae'r ymateb graddedig yn cydnabod bod continwwm o angen trwy:

- weithredu gan y blynyddoedd cynnar neu'r ysgol, lle trefnir darpariaeth gan ddarparwyr y blynyddoedd cynnar neu ysgolion;
- gweithredu gan yr ysgol a mwy neu weithredu gan y blynyddoedd cynnar a mwy, lle trefnir darpariaeth gan ddarparwyr y blynyddoedd cynnar neu ysgolion, ynghyd â chyngor a chymorth ychwanegol gan wasanaethau cymorth yr awdurdod lleol neu asiantaethau partner; ac
- asesiad statudol a darpariaeth a drefnir ar y cyd gan ddarparwyr y blynyddoedd cynnar neu ysgolion, yr awdurdod lleol ac, mewn rhai achosion, asiantaethau partner.

Er bod y ddeddfwriaeth yn y Cod Ymarfer yn disgrifio dyletswyddau statudol awdurdodau lleol ac ysgolion, nid yw'n diffinio pa ddisgyblion yn union y dylid defnyddio'r graddau ymateb gwahanol hyn i fodloni eu hanghenion.

Mae'r fframwaith statudol yn gofyn i awdurdodau lleol ac ysgolion gynllunio i gynyddu hygyrchedd i ddisgyblion anabl ac i ddatblygu addysg gynhwysol i bob plentyn ac unigolyn ifanc.

[13] Nid yw'r ddyletswydd i ystyried y Cod Ymarfer AAA yn berthnasol i ysgolion annibynnol.